**Prawf iechyd, Diogelwch ac Amgylchedd CITB**

**Hysbysiad Prosesu Teg**

Bydd canlyniadau eich prawf a'ch ffotograff adnabod yn cael eu hamgryptio a'u trosglwyddo i Pearson VUE a CITB ac efallai'n cael eu rhannu gyda darparwyr cynlluniau cardiau cymwyseddau os byddwch chi'n ymgeisio am eu cynnyrch. Gall CITB rannu'r wybodaeth hon hefyd fel rhan o unrhyw ymchwiliad i gamymddwyn neu weithgaredd twyllodrus.

Bydd y ganolfan brofi'n cadw eich gwybodaeth, gan gynnwys pa bryd ac ym mhle y cymerwyd y prawf a'r dystiolaeth adnabod a ddefnyddiwyd.
Gellir cael gwybodaeth bellach, gan gynnwys ynghylch eich hawliau cyfreithiol a sut y gellir defnyddio eich gwybodaeth, drwy:

- edrych ar Hysbysiad Preifatrwydd Pearson VUE ar-lein yn www.pearsonvue.com/citb/privacy
- edrych ar Rybudd Preifatrwydd CITB ar-lein yn www.citb.co.uk/privacy
- gofyn i'r ganolfan brawf am wybodaeth ynghylch sut y mae'n trin eich data personol.

Bydd y wybodaeth y byddwch yn ei darparu yn cael ei defnyddio ar gyfer gweinyddu'r prawf HS&E ac at ddibenion sy'n gysylltiedig â rôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu ("CITB") fel Bwrdd Hyfforddi Diwydiannol yn unol â Deddf Hyfforddi Diwydiannol 1982.

Gall hynny gynnwys rhannu eich gwybodaeth ar Gofrestr Hyfforddiant Adeiladu CITB yn ogystal â'u rhannu gyda chyflogwyr, sefydliadau dyfarnu, cynlluniau cardiau cymwyseddau neu ddarparwyr hyfforddiant.

Bydd eich data personol yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu trin yn gyfrinachol ac ni fyddant yn cael eu datgelu i drydydd partïon ac eithrio fel y disgrifir uchod. Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data personol i drydydd partïon at ddibenion marchnata heb eich caniatâd chi.